LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Mae'r fersiwn digidol hwn o'r erthygl/cylchgrawn wedi'i greu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

NODER y gall cyfyngiadau hawlfraint ac amodau trwydded fod yn berthnasol. Am ragor o wybodaeth, ewch i **Mwy o Wybodaeth** wrth ddarllen y cylchgrawn ar wefan Cylchgronau Cymru (cylchgronau.llyfrgell.cymru).

Efallai y bydd hefyd gennych ddiddordeb yn Papurau Newydd Cymru (papuraunewydd.llyfrgell.cymru), chwaer-wefan gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n rhoi mynediad i dros 1.1 milwn o dudalennau o dros 130 o bapurau newydd a gyhoeddwyd rhwng 1805 a 1919.

This digital version of the article/journal has been created by The National Library of Wales.

PLEASE NOTE that copyright restrictions and license terms may apply. For more information, view **More Information** when reading the journal on the Welsh Journals (journals.library.wales) website.

You may also be interested in Welsh Newspapers (newspapers.library.wales), a sister-site from the National Library of Wales that gives access to over 1.1 million pages from over 130 newspapers published between 1805 and 1919.

Jisc

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

europeana

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

# Tywysydd y Plant.

GOLYGYDD—

## Parch. THOS. JOHNS, Llanelli.

"RHED,
LLEFARA
WRTH
Y
LLANC."



PRIS
CEINIOG
Y MIS.

CYNWYSIAD—


Parch. T. G. Jenkyn, Llwynpia (*Darlun*) .......... 174
Llyfr Newydd i'r Plant...... 180
Y Nos........................ 181
Y Nai a'r Milgi............. 182
Cymdeithas Genadol Llundain 183
Un Gair yn Dyfetha y Cwbl.. 185
CONGL YR ADRODDWR—
Y Cloc wedi Sefyll....... 186
"Gwna Dda, ni Waeth i Bwy" ............... 187
Cynildeb .................... 187
Yr Apostolion ............. 188
Darnau heb Atalnodau....... 190
Codi drwy Anhawsderau .... 191
Rhodd Carlyle i'r Cardotyn... 191
Gronynau.................. 192
Yr Ysgrifbin.............. 192
Darganfyddiad Mwyaf Syr Humphry Davy ........ 193
Pwy sy'n Perchenogi America? 193
Y Seren Ogleddol.......... 193
Camgymeriad Pregethwr .... 194
Penill Angladdol........... 194
Yr Afr a'r Enciliwr......... 195
Ty Dduw .................. 195
Yr Afradlon............... 196
Yr Hyn wnaeth un Gwydraid o *Rum* ............... 197
Gofyniadau ac Atebion....... 198
TON.—O, Cadw Ffordd y Nef 199
Llyfrau Newyddion.......... 200



LLANELLI:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN B. R. REES A'I FAB.

Paham y dyoddefwch boenau afiechyd pan y gellir eich GWELLA trwy ddefnyddio

# QUININE BITTERS GWILYM EVANS

Y Feddyginiaeth Fawr Gymreig, yr hon yw Meddyginiaeth Lysieuol Berffeithiaf yr Oes.

| | |
|---|---|
| Tystia FFERYLLWYR ei fod yn FEDDYGINIAETH LWYDDIANUS. | Dywed MEDDYGON ei fod yn FEDDYGINIAETH EFFEITHIOL. |
| Dywed MILOEDD a wellhawyd drwyddo mai hwn yw Meddyginiaeth OREU YR OES. | Sicrha DADANSODDWYR ei fod yn FEDDYGINIAETH LYSIEUOL a PHUR |

## BITTERS GWILYM EVANS

TYSTIOLAETH DDIWEDDAR.

**Gwneud dyn newydd o honof.**

Pyle, Awst 17eg, 1895.

ANWYL SYR,—

Pan ddychwelais adref ychydig ddyddiau yn ol, ar ol llafur caled am rai wythnosau, teimlwn yn lluddedig iawn, ac wedi llwyr ddiffygio, ac mewn angen am *donic* da i'm hadgryfhau. Anogwyd fi i roddi prawf ar eich QUININE BITTERS enwog. Gwnaethum hyny, a chefais ei fod yn hynod effeithiol. Mae yn rhoddi yni newydd ynof, ac yn bywiocäu yr ysbryd, mewn gair, teimlaf ei fod yn gwneud dyn newydd o honof.

Yr eiddoch, &c.,

(Parch.) GURNOS JONES.

QUININE BITTERS


QUININE BITTERS

## BITTERS GWILYM EVANS

RHYBUDD.—Gochelwch Dwyllwyr. Edrychwch fod enw Gwilym Evans ar bob *label*, *stamp*, a photel.

Gwerthir hwynt mewn poteli 2s. 9c. a 4s. c. yr un, i'w cael ym mhob man, neu danfonir hwy yn rhad am y prisiau uchod yn ddyogel drwy y *post* oddi wrth y perchenogion—

***Quinine Bitters Manufacturing Co., (Limited), Llanelly, South Wales.***



PARCH. T. G. JENKYN, LLWYNPIA.

*Tywysydd y Plant, Gorphenhaf, 1896.*

# TYWYSYDD Y PLANT.

RHIF 7.] —GORPHENHAF, 1896.— [CYF XXVI.

## PARCH. T. G. JENKYN, LLWYNPIA.

MAE dyled Cymru yn fawr i'w llenyddiaeth gyfnodol y dyddiau gynt. Y cylchgronau misol arlloesodd y ffordd i'r papyrau wythnosol a newyddiaduron dyddiol y dyddiau presenol. Yn mhlith cefnogwyr aeddgar y cyfryw fwy na phedwar ugain mlynedd yn ol cawn Roger Jenkins, o Bentyrch, tadcu o ochr ei dad i'r Parch. Thomas Griffin Jenkyn. Byddai Roger Jenkins gyda gwneud esgidiau diddos i'w gymydogion yn hoff o wylio symudiadau y dydd yn grefyddol a gwladol. Yr oedd yn ddarllenwr mawr mewn oes pan oedd darllenwyr yn anaml. Derbyniai *Seren Gomer* o'r cychwyn, a chyn hyny y *Cylchgrawn Cymreig* a'r *Eurgrawn*. Mynai y cylchgronau mae yn debyg ar draul gwasgu ei hun a'i deulu mewn pethau ereill, a chai felly destynau buddiol i feddwl a siarad am danynt. Darfu i'w fab, David Roger, yr hwn sydd eto yn fyw, a thros ei 80 mlwydd oed, etifeddu chwaeth ei dad at ddarllen a'i syched am wybodaeth, yr hyn a'u gwnaent yn oleuadau yn yr ardal. Nid rhyfedd fod llawer yn arfer cyrchu atynt i'r siop waith i gael hyfforddiant ar gwestiynau Beiblaidd, newyddion seneddol, a phynciau y dydd yn gyffredin. Talai yr enwog Iolo Morganwg a Iolo Fardd Glas ymweliadau a siop waith Roger Jenkyn. Y mae cân "Breiniau Dyn" yn llaw-ysgrif yr awdwr yn meddiant David Roger yn awr.

Gwahaniaethai Roger Jenkins oddiwrth ei fab, David yn ei olygiadau ar ddull a deiliaid bedydd, er na chlywsom ei fod yn proffesu, yr oedd yn Drochwr gwir selog, a'i fab mor selog a hyny dros Daenelliad. Byddai dadleuon brwd rhwng y ddau ar y pwnc yn aml, a hyny er anfantais i'w hamgylchiadau, gan yr anghofient eu gorchwyl gwaith yn mhoethder y frwydr. Weithiau parhäi y ddadl am oriau. Yr hyn a roddai derfyn ar y ddadl fynychaf fyddai gwaith rhyw gymydog yn dyfod yno gan daranu am nad

oedd ei esgidiau yn barod yn ol yr addewid, a'i draed yntau yn wlybion.

Yn yr awyrgylch uchod y dygwyd i fyny weinidog presenol Eglwys Annibynol Llwynpia. Y mae Mr. T. G. Jenkyn yn fab i David Roger a Mary Jenkins. Enw morwynig ei fam oedd Mary Evans, merch i Thomas a Rachel Evans, Rhiwsaeson, ger Llantrissant, ond yn mhlwyf Pentyrch. Ganwyd Thomas Griffin Medi 7fed, 1846, ar waelod Pentre Pentyrch. Pan yn bedair oed danfonwyd ef i'r ysgol at Kate, gwraig Robert, Pant-y-gored. Aeth oddiyno i Ysgol y Pentre. Pan yn wyth oed cafodd fyned i Ysgol St. Fagans. Pan oedd yn yr ysgol hono darfu i Dr. Oliphant, Esgob Llandaf, roddi ei law ar ei ben,a dywedyd am dano, "*Very good boy.*" Diau i dystiolaeth yr Esgob da fod yn llawer o gysur a nerth iddo yn wyneb helyntion a threialon ei fywyd bachgenaidd. Dywedai wrthym fod amgylchiad arall ddigwyddodd yn *Model School* St. Fagans yn fyw ar ei gof.—Un diwrnod yr oedd bachgen hŷn nag ef wedi esgeuluso dysgu ei wers. Pan wrth y ddesg cyn myned i fyny at yr athraw, ceisiodd ganddo sefyll o'i flaen ac agor y *Spelling Book* lle yr oedd y wers, fel y gallai gael cynorthwy. Deallodd yr athraw beth oedd yn wneud, a chafodd gystal curfa am hyny a gafodd neb erioed. Oes y curo yn yr Ysgolion oedd hono. Yr oedd llawer athraw a mwy yn ei fraich nag yn ei ben. Curfa ar gam yn Ysgol Sabbathol y Bedyddwyr fu yn achlysur iddo, a dyweyd y lleiaf, i fwrw ei goelbren ar y cyntaf gyda'r Annibynwyr. Er fod ei dad yn arfer cyrchu i Bethlehem, wrth waith Pentyrch—capel perthynol i'n henwad ni, arferai ei fab o herwydd cyfleusdra fyned i Penuel, Capel y Bedyddwyr.

Dysgasai ei fam ef i ddarllen y Beibl cyn ei fod yn wyth oed. Un tro pan yn eistedd yn yr ysgol yn Penuel yn mhlith plant o'r un oed ar fainc yn ymyl y tân tra y dechreuid yr ysgol, darfu i ddau fachgen estyn eu breichiau o'r tu cefn iddo i guro eu gilydd, ond Thomas wrth geisio gochel oedd yn symud i olwg yr Arolygwr. Wedi gorphen gweddio daeth yr Arolygwr ato, ac heb chwilio i mewn i'r helynt bonclustiodd ef yn gas, ac yntau heb wneud dim allan o le. Mewn canlyniad ymadawodd o'r capel, ac ni thywyllodd y drws am lawer o flynyddau wedi hyny. Bu am beth amser yn cyrchu i ysgol y Methodistiaid, ac weithiau i wasanaeth yr Eglwys am 2 o'r gloch, am ei fod yn fyr—dim ond awr, ac efallai am i'r Esgob roi ei law ar ei ben a'i alw yn "*Very good Boy.*"

Yr amser hwnw tarawodd ar ddau fachgen tua'r un oed, y rhai a'u cymellasant i fyned gyda hwy i gapel Taihirion tua dwy filldir oddiyno. Heb fod yn faith wedi iddo ddechreu mynychu y lle,

digwyddodd fod Mr. Joseph Millward, pregethwr cynorthwyol yn Bethlehem, yn pregethu yn Taihirion. Hwn oedd y tro cyntaf i Mr. Millward fod yno, os nad dyna y tro cyntaf iddo fyned oddicartref fel pregethwr. Yr oedd newydd wella o'r Frech Wen, yr hon a laddodd ddau o frodyr iddo yr amser hwnw. Yr oedd Mr. Millward yn ddiacon rhagorol flynyddau cyn hyny, ond wedi gwella teimlodd awydd i bregethu, a'i destyn cyntaf oedd, "Yr oeddwn i lawer megys rhyfeddod."—Salm lxxi. 7 Gadawodd y bregeth argraff mor ddofn ar feddwl Jenkyn ieuanc fel y gwnaeth ei feddwl i fyny i fyned i'r gyfeillach. Arferai pobl Taihirion gynal cyfarfod gweddi a chyfeillach yn nhy un Lewis Lewis yn mhen draw gardd ei rieni. Aeth yn ol ei benderfyniad i'r gyfeillach yno, a derbyniwyd ef yn aelod pan yn ddeuddeg oed, a'r ddau fachgen arall gydag ef, yn Eglwys ieuanc Bronllwyn, gan y Parch. J. Davies, y gweinidog. Bu yn dra ffyddlon i ddilyn y moddion, ac ymroddai i ddarllen. Cai fantais at hyny gan fod ei dad yn gefnogol iddo ddarllen, a llawer o lyfrau da yn y ty. Nid oedd heb deimlo awydd i fyned i bregethu, ac ar ol gwrando ar y Parchn. J. Davies, Aberaman, a W. Williams, Abercwmboy, yn pregethu yn hwyliog anghyffredin yn y Bronllwyn dranoeth i Gymanfa Castellau, penderfynodd fod yn bregethwr. Awgrymwyd iddo gan rai o'r swyddogion y buasai yn ddymunol iddo ddechreu pregethu, ond symudodd y teulu i Ffynon Taf i fyw, a gwnaethant eu cartref crefyddol yn Bethesda Tongwynlas. Gan eu bod wedi cychwyn masnach yma teimlai anhawsder i ymryddhau, ond ar gymhelliad y Parch. J. Jones, yr hwn oedd bellach ar derfynu ei weinidogaeth, addawodd ysgrifenu pregeth neu ddwy, ac aeth i'w darllen i'r hen weinidog. "Yn awr, Thomas," ebe fe, "gad i mi glywed y testynau." Darllenodd yntau y cyntaf,—"Ac efe a ymadawodd ac a aeth ac a ymgrogodd."—Lle cydwybod yn mywyd dyn. "O ho," ebe fe, "gad i mi glywed beth sydd genti i wêd arno." Yr ail destyn oedd, "Gwefus gwirionedd a saif byth."—Sefydlogrwydd gwirionedd. Ar ol hyn cadwodd ef i bregethu am tua dau fis yn y gyfeillach. Bu yn lled faith cyn myned yn gyhoeddus am ei fod yn ofnus, ac yn dyrysu wrth ddyweyd, a'r hen weinidog yn anfoddlon i godi "pregethwr papyr," neu bregethwr yn darllen ei bregeth.

Wedi pregethu tua blwyddyn, aeth yn Gorphenhaf, 1871. at Dr. Pan Jones, Mostyn, i barotoi ar gyfer Athrofa'r Bala. Cafodd ei dderbyn i'r Bala yn 1872. Cawn yn yr un dosbarth ag ef y Parchn. J. Williams, Hafod; Caeronwy; J. Charles, Dinbych; W. P. Williams, Caergybi; a W. P. Hough, Merthyr. Wedi llafurio gyda diwydrwydd yno cafodd gynyg galwad o Bagillt, a Seion,

Pontypridd. Derbyniodd alwad yr olaf, a chymerodd ei urddiad le Mai 30ain a'r 31ain, 1875. Pregethwyd ar Natur Eglwys gan Proff. J. Peters; gweddiwyd am fendith ar yr undeb gan Mr. Davies, Taihirion; traddodwyd Siars i'r Eglwys gan Mr. J. Griffiths, Glantaf; a Siars i'r Gweinidog gan Dr. Pan Jones. Ymroddodd y gweinidog ieuanc i weithio yma, ac enillodd barch a dylanwad yn yr Eglwys a'r gymydogaeth. Fel arwydd o deimlad da ato cyflwynodd yr Eglwys iddo yn Mawrth, 1876, werth £26 o lyfrau. Gwnaeth Seion yn ddoeth a charedig drwy roi nifer o weithiau yr awduron goreu yn ei lyfrgell. Mae llyfrau da yn gymhorth i wneud pregethwr da.

Wedi llafurio gyda chymaint graddau o lwyddiant ag a ellid ddysgwyl dan yr amgylchiadau y blynyddoedd hyny, ac i'r Eglwys a'r gynulleidfa gynyddu cryn lawer, derbyniodd Mr. Jenkyn yn Haf 1877 alwad daer oddiwrth Eglwys ieuanc—

LLWYNPIA,

a dechreuodd ar ei weinidogaeth yno Hydref 7fed y flwyddyn hono. Aeth i'r lle pan oedd yr addoldy heb ei orphen. Cymerwyd rhan yn nghyfarfodydd ei sefydliad gan Mri. J. Davies, Taihirion; W. I. Morris, Pontypridd; J. Williams, Hafod; M. Jones, Tynewydd; a D. Evans, Pentre. Agorwyd y capel newydd ddechreu Ionawr, 1878. Anfantais fawr mewn mwy nag un ystyr oedd ei adeiladu ar derfyn eithaf y boblogaeth yn lle yn y canol. Pan sefydlwyd yr Eglwys—cangen o Tonypandy—yn nechreu 1876, nid oedd rhifedi ei haelodau ond 67. Yr oedd ganddi yn mhen dwy flynedd ysgoldy a chapel gwerth £2,690. Gan nas gallasai y cynydd fod yn rhyw lawer eto, a'r aelodau o'r dosbarth gweithiol, gwasgai baich y ddyled yn drwm ar eu hysgwyddau. Yr oedd yn rhaid iddynt gasglu £5 yr wythnos i nofio, fel y dywedir, heb son am dalu dim o'r corff. Trwy ymdrech a dyfalbarhad mae yr anhawsderau wedi eu gorchfygu, baich y ddyled wedi ei ysgafnhau, fel y gellir ei ddwyn bellach yn gymharol hawdd, a llawer o adeiladu o gylch y lle. "Fel coron ar y cwbl," meddai Mr. Jenkyn, "mai yr Eglwys yn heddychol, heb un gair erioed o gecru o'i mewn." Da iawn. Gyda digon o waith ac ymroddiad i'w gyflawni buasem yn dysgwyl iddi fod fel hyny. Hyd y gwelsom eglwysi segur, neu ddynion segur yn yr eglwysi sydd yn terfysgu bob amser. Nid rhyfedd fod Mr. Jenkyn yn teimlo y fath afael yn Salem fel y gwrthododd yn ddiweddar alwad o eglwys arall er cael cynyg cyflog

fwy. Mae ymwybyddiaeth gweinidog ei fod yn byw yn mharch a serch ei bobl yn werth gwneud aberth er ei fwyn.

Ychydig wyddai yn Nghyfarfodydd yr Undeb yn Pwllheli y llynedd mai hanesyn am Mr. Jenkyn yn ei gystudd trwm adroddid gan Mr. Machreth Rees mor effeithiol yn rhan ddiweddaf ei araeth. Gan ei fod mor nodweddiadol o'n hanwyl frawd, ac hefyd yn ffenestr i ddangos ei gymeriad i ddyeithriaid, rhoddwn ef yma.—"Rai blynyddau yn ol," ebe fe (Mr. Machreth Rees), "fe fu gwr a adwaenai y rhan fwyaf o honom yn glaf iawn, ac i bob ymddangosiad yn anadferadwy. Rhoddai meddyg ar ol meddyg ef i fyny. Un diwrnod galwyd *specialist* enwog i'w weled. Wedi ei archwilio, 'You are in a bad way, my friend,' ebe hwnw. 'But I am going to get well,' ebe'r claf. 'Are you not afraid you may die?' gofynai'r meddyg. 'No; and another thing, I am not going to die now. I cannot afford to die yet. Not one of my family died under 80 years of age, and I have got to keep up the reputation of the family. I cannot afford to die.' 'My friend,' ebe y meddyg, wedi ei daro gan ffydd y claf, 'You deserve to live, and you will live.' 'Ac,' ychwanegai yr areithiwr hyawdl, 'y mae yma yr wythnos hon mor fyw a neb o honom.'"

Heblaw bod yn weithiwr diwyd a llwyddianus gartref, y mae yn dwyn sel fawr dros ei Enwad. Rhai blynyddau yn ol, wedi ei ethol yn Gadeirydd Cyfarfod Chwarterol y Rhondda, aeth ati i gasglu Ystadegaeth Eglwysig y Cyfundeb am y deuddeg mlynedd cyn hyny. Gorchwyl anhawdd yw cael gan Eglwysi Annibynol i roddi hanes eu gweithrediadau mewnol a'u cyfrifon i neb y tuallan, ond gyda chryn lawer o fedr a dyfalbarhad llwyddodd Mr. Jenkyn yn ei amcan, a rhoddodd ffrwyth ei ymchwiliad ar ffurf Anerchiad o'r Gadair. Pan gyhoeddwyd yr hanes, agorai llawer eu llygaid at nerth Annibyniaeth yn y Rhondda wrth weled fod yr Eglwysi wedi talu £100,000 mewn deuddeg mlynedd. Casglodd Mr. Jenkyn y ffeithiau hyn, a chyhoeddodd yr Adroddiad cyntaf ar ei draul ei hun, ac anfonodd un i bob diacon yn y Cyfundeb yn rhad. Dylid crybwyll yma y teimlai rhai brodyr ei fod yn gwneud gormod, ac y mynent estyn tal am dano. Mae y Cyfundeb yn bresenol yn talu treuliau casglu yr Ystadegaeth a'r argraffu, ond llafur cariad yw gwaith yr Ystadegydd ei hun. Cynwysa yr Adroddiad yn mhlith pethau gwerthfawr ereill enw pob gweinidog a godwyd yn y Cyfundeb, lle ei weinidogaeth gyntaf a'r olaf, lle ei claddwyd a'i oedran yn marw. Darfu i Mr. Jenkyn gasglu a chyhoeddi yn y *Tyst* symudiadau pob gweinidog yn Nghymru.

Cyhoeddodd gyfres o ysgrifau ar "Hanes yr Enwad yn y Rhon-

dda," yn y *Diwygiwr*. Bydd hwn yn drysor gwerthfawr yn ngolwg yr oesau a ddel. Yn Nghyfarfod Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymreig yn Nghaerdydd yn 1894 penodwyd Mr. Jenkyn yn Ysgrifenydd Ystadegol yr Enwad, a danfonwyd cais allan yr un pryd at yr holl Gyfundebau yn dymuno arnynt anfon ffeithiau ystadegol i'w ofal erbyn yr Adroddiad Blynyddol. Mae hon yn swydd newydd o gryn gyfrifoldeb perthynol i'n Henwad, ac ar weinidog gweithgar Llwynpia y disgynodd yr anrhydedd o'i llanw gyntaf. Yr oedd ei lafur yn y cyfeiriad hwn er's blynyddau yn ei nodi allan fel y mwyaf cymhwys yn mhlith y canoedd oedd yn nghyd i wneud y gwaith. Yr oedd angen am gasglu Ystadegaeth ein Henwad. Rhydd ryw fath o safon i ni yn ngolwg Enwadau ereill nad oedd genym o'r blaen. Nis gall Aelodau Seneddol ein hanwybyddu mwy pan yn cyfeirio at nerth Ymneillduaeth yn Nghymru.

Rhaid i mi dynu fy ysgrif i ben gyda dyweyd mai megys ffynon yn tarddu allan o wely o raian yw cymeriad ein brawd o ran gloywder yn ngolwg ei frodyr sydd yn ei gyfrinach. Dywedir fod yn well ganddo bregethu i'w bobl ei hun nag i ddyeithriaid, ond y mae ei bregethau gonest, meddylgar yn werth eu traddodi yn uchel-wyliau ein gwlad. Gorphenhaf 13eg, 1876, unwyd Mr. Jenkyn mewn priodas a Miss Ceidonia Russell, merch Mr. W. Russell, Pentyrch. Dymunwn i'r cwlwm dedwydd barhau yn hir, a'r un modd eu cysylltiad a Salem, Llwynpia.

TABORFRYN.

*Mehefin 6ed*, 1896.

## LLYFR NEWYDD I'R PLANT.

ODLAU MAWL. Rhan 4—yn cynwys Tônau ac Anthemau byrion a syml er gwasanaeth Cyfarfodydd y Plant a Chymanfaoedd Canu, gan D. W. Lewis, F.T.S C., Brynaman, R.S.O. *Pris—Dwy Geiniog*. Argraffwyd gan G. Jones a'i Feibion, Llandilo.

Cynwysa Rhan 4 ddeg o Donau byrion, ac un Anthem ar Weddi yr Arglwydd—"Ein Tad yr hwn wyt yn y Nefoedd," &c. Mae y beroriaeth yn y rhan hon yn hynod o swynol a tharawiadol fel yn y tair gyntaf. Gellir cael y pedair rhan yn un llyfr mewn amlen hardd—Pris 8c. Rhoddir gostyngiad pris i Gorau Plant a Chymanfaoedd Canu pan gymerir rhan fel *programme*. Anfoner at yr Awdwr.

## Y NOS.

O! ddystawrwydd ystyriol,—a doa
Ein daear andwyol ;
Y nos ddu ddaeth dros y ddol,
Hedd erys yn fyddarol.

Ser y nos ddaw i siarad,—yn dawel
Fod Duw yn y cread ;
Iaith pob seren wen a wad
Awydd enaid annuwiad.

Yr Eos dry'r nos i ni,—yn gyngherdd
Ar ganghen uchelfri ;
O! mor swynol mae'n moli,
Daw o'i mawl swn Duw i mi.

O! weithredoedd eithriadol,—a luniwyd
O dan leni hwyrol ;
Y nos erch, druenusol,
Yn ei chwsg daeth cwyn o'i chol.

Y lladron sydd yn lloni,—yn fawr
Am fod y goleuni
Yn y gwyll yn ymgolli,
Gwel eu brys gwael yw eu bri.

Y nos bradychwyd Iesu,—o herwydd
I'r dyhiryn fethu,
Drwy chwys y dydd fradychu,
A rhoi brad i'n Ceidwad cu.

Yn hyf daw y diafol,—ei hunan,
A'i wenau melldithiol,
O'i ffwrn eirias uffernol,
Yn hwyr y nos ar ein hol.

Anian oll sydd yn huno,—yn dawel
'Nol diwyd lafurio ;

A'r nos geir yn ei sïo
Yn brudd nes daw'r haul i'n bro.

Marwolaeth a ddaeth drwy'r nos ddu,—yn awr
Haint sydd yn teyrnasu ;
Y rhosyn gwyn a'i wen gu
Yn ing y nos mae'n trengu.

O *gaos* y nos daw i ni,—yn fuan
Fywyd gwych i'n lloni ;
A chân yr adar mân a mi
Yn hwylus i addoli.

D. OLIVER DAVIES.

*Gowerton.*

# Y NAI A'R MILGI.

YR oedd nai, yr hwn oedd wedi ei amddifadu o'i rieni, fel mae llawer ereill o blant amddifaid, a dygid ef i fyny gan ewythr iddo. Nid oedd yr ewythr yn hynod o garedig i'w nai, a chadwai ef yn brin iawn mewn defnyddiau cynaliaeth, trwy beidio rhoddi digonedd o ymborth iddo.

Rhyw dro, wrth rodio allan, gwelodd y nai ddyn a milgi gydag ef. Nid oedd wedi gweled milgi erioed o'r blaen, a synai at weled ci mor fain yn ei gorff. Aeth yn mlaen at y milgi, yn llawn cydymdeimlad, a thaflodd ei ddwy fraich deneu am ei wddf, a dywedodd—

"O'r ci anwyl, druan bach, mi welaf dy fod dithau hefyd yn cael dy fagu gan dy ewythr"

Hynod yw amgylchiadau i feithrin cydymdeimlad.

CLWYDWENFRO.

NI chân cog ddim amser gaua,
Ni chân telyn heb ddim tannau,
Ni chân calon hawdd i'ch wybod,
Pan fo galar ar ei gwaelod.

# CYMDEITHAS GENADOL LLUNDAIN.

——:——

## SEFYLLFA ARIANOL Y GYMDEITHAS.

YR oedd derbyniadau y Gymdeithas y flwyddyn ddiweddaf yn £141,704 4s. 3c. Allan o'r swm uchod budd-soddwyd £6,263 4s. 3c. fel treuliau, gan adael £135,441 yn ngweddill ar gyfer treuliau o £138,806 5s. 8c. Yr oedd y treuliau fel hyn yn fwy na'r derbyniadau o £3,365 5s. 8c. Mae swm yr arian adawyd fel cymun-roddion gan bersonau fuont feirw yn £20,483 4s. 4c. Gan fod hyn yn fwy nag a arferir dderbyn o gryn lawer, barnodd y Trysorydd, Mr. Albert Spicer, A.S., yn ddoeth i osod o'r swm hwn o'r neilldu £5,000 ar gyfer blynyddau prinach yn y cyfeiriad hyn.

Mae y casgliadau o Eglwysi Cymru yn cyrhaedd am 1895-6 £8,349, mwy o £846 na'r flwyddyn o'r blaen, a gadael allan rodd-ion neillduol at y Canmlwyddiant mae cynydd y cyfraniadau yn £696. Cyrhaedda Trysorfa y Canmlwyddiant yn bresenol £102,199. Mae y Gronfa yn agored eto i'r rhai a ewyllysiant gyfranu ati.

---

Mae gan y Gymdeithas 69 o Genadesau yn y Maes Cenadol. Y mae tair o honynt wedi pasio fel meddygon, ac y mae hefyd wrag-edd dau Genadwr Meddygol wedi pasio, ac y mae tair yn *nurses*. Y mae o ferched a gwragedd brodorol 321 o Athrawesau, 250 o Feibl-wragedd, ac y mae 15,254 o ferched mewn 284 o Ys-golion(heb gyfrif Madagasgar).

---

Y mae eisieu arian i ledaenu yr Efengyl drwy y gwledydd. Pe ceid ychwaneg o arian gellid anfon ychwaneg o Genadon allan—maent i'w cael yn barod. Dywedwyd mewn Cynadledd yn Liver-pool yn ddiweddar fod y genedl yn gwario yn aruthrol ar bethau ereill. Gosodir o'r neilldu ganddi yn flynyddol 240 o filiynau o bunau, tra y gwerir 140 o filiynau ar ddiodydd meddwol. Gwerir 17 o filiynau ar dybaco, ac 8 miliwn am gael myned i mewn i weled gorchest-gampau y beldroed. Gwerir mwy o arian yn Llun-dain am fyned i'r *Theatre* nag a roddir gan yr holl Eglwysi gyda eu gilydd er efengyleiddio y byd. Dyma sefyllfa pethau yn y deyrnas hon! Wrth adrodd y ffeithiau yn Nghapel Westminster nid rhyfedd i Mrs. Walker ddywedyd, "Y mae arnom angen yr

Ysbryd Glân i drigo ynom, fel y gallom dreulio ein bywyd mewn ymdrech weddigar dros y gwaith cenadol.

*Pa fodd mae codi y casgliad cenadol?*

Credaf fod llawer fel fy hunan a garai wneud hyny. Mae dyled ar gapel yn rhwystr i haelioni at y Genadaeth. Mae llawer iawn o Eglwysi yn ddiddyled eto yn casglu ond ychydig o eisieu cynllun. Byddai yn werth i Eglwysi Cymru fabwysiadu y cynllun a gymeradwyir gan y Gymdeithas, sef ethol Pwyllgor Cenadol yn mhob Eglwys o rhai sydd yn teimlo sel dros y gwaith Cenadol, ac i'r Pwyllgor hwn o'u plith eu hunain benodi Cadeirydd, Casglyddion, Ysgrifenydd, a Thrysorydd. Rhanu yr Eglwys yn ddosbarthiadau, a myned oddiamgylch os gellir yn wythnosol i dderbyn cyfraniadau. Gyda chynllun fel hyn ceid gan luaws i gyfranu ceiniog yn yr wythnos at y Genadaeth, byddai hyny yn bedwar swllt y flwyddyn. Dichon na roddant yn awr ond ceiniog neu ddwy un waith yn y flwyddyn yn y casgliad blynyddol. Pwy wna gychwyn y cynllun newydd? Mae yn un esmwyth, ac yn sicr o brofi yn effeithiol. Codwch ati bobl ieuainc o ddifrif. Gellir cael cardiau tuag at gasglu symiau bychain o'r fath a nodwyd o'r Ty Cenadol. Anfoner am danynt at--Rev. G. Cousins, 14, Blomfield Street, London, E.C. Dylai y Pwyllgor gynal cyfarfodydd rheolaidd, dyweder bob tri mis i gydymgynghori a gweddio, a dylai y gweinidog wneud ei oreu i godi y Genadaeth i sylw yr Eglwys a'r Gynulleidfa.

## LLYFR CYMRAEG YN WOBR I BLANT CYMRU.

Yn gymaint a bod Cymru yn gwaeddu am i'r Gymdeithas roddi llyfr Cymraeg—yr un peth yn hollol a'r llyfr Saesneg ond yr iaith —i'r plant am gasglu at y llongau, y mae Mr. Cousins, yr Ysgrifenydd Golygyddol, ar ol dwys ystyriaeth wedi penderfynu cydsynio, ar yr amod fod plant Cymru i gasglu 6/-, ac nid 5/- fel plant y Saeson. Mae hyny yn rhesymol wrth ystyried fod y cylchrediad gymaint yn fwy yn Lloegr na Chymru, am fod y boblogaeth lawer yn fwy. Hyderwn y gwna hyn foddloni Cymru, ac y bydd casgliad y plant y flwyddyn nesaf yn uwch nag erioed. Cewch glywed eto beth fydd y llyfr roddir am gasglu.

Dywedai—

## DR. PARKER

yn Nghyfarfod Cenadol y Bobl Ieuainc a gynaliwyd yn y City

Temple yn Mai fod Eglwys heb Genadaethau fel aderyn heb adenydd. Byddai ef yn clywed gweinidogion yn cwyno weithiau nad ychwanegwyd nemawr o aelodau newyddion at yr Eglwys yn ystod blwyddyn, ond yr oedd ef yn condemnio yn gryf y fath sylw ar waith yr Efengyl gartref ac mewn gwledydd tramor. Nid oedd ef byth yn gofyn pa sawl un ychwanegwyd at rif yr aelodau. Gofynai yn hytrach faint ychwanegwyd at fywyd a gallu yr Eglwys. Ychwanegwyd at yr Eglwys gyfandir pan ddychwelwyd DAVID LIVINGSTONE Byddai yn destun o lawenydd iddo pe ychwanegid yn y cyfarfod hwnw ddim ond un person at Eglwys Crist. Nis gallai angel o ysgrifenydd roddi ar lawr y canlyniadau o lwyr-ymgysegriad un i waith yr Arglwydd.

## UN GAIR YN DYFETHA Y CWBL.

AETH amaethwr cybyddlyd i wrando Mr. John Wesley, sylfaenydd Enwad y Wesleyaid. Yr oedd Wesley yn ysgolhaig gwych ac yn bregethwr enwog. Nid ydym yn gwybod beth oedd ei destun ar yr amgylchiad dan sylw, ond yr oedd ganddo dri phen i'r bregeth, dau o ba rai enillodd gymeradwyaeth uchel y cybydd.

"Yn *gyntaf*," ebe y pregethwr, "*mynwch yr oll a ellwch.*"

"Ha," ebe y cybydd, "dyma bregeth ryfedd, ond y mae yn un dda iawn."

Yna aeth y pregethwr yn ei flaen at yr *ail ben* a dywedodd, "*Cynilwch yr oll a ellwch,*" ac yr un pryd condemniodd wastraff ac afradlonedd.

Derbyniai y sylwadau uchel gymeradwyaeth yr amaethwr, a dywedai, "Ni chlywais erioed o'r blaen ddim tebyg o enau pregethwr —Campus!"

"Yn *drydydd*," ebe y pregethwr gonest, "*Rhoddwch yr oll a ellwch.*"

Pan glywodd y gwrandawr cybyddlyd hyn trodd ei gefn, a dywedodd, "Dyna ti wedi dyfetha y cwbl."

Mae clywed am roddi peth chwaethach rhoddi y cwbl fel tân ar groen y cybydd. Pa fodd y gall y rhai sy'n caru arian ymadael a hwynt? "Mor anhawdd yr â y rhai y mae golud ganddynt i deyrnas Dduw!"——

# CONGL YR ADRODDWR.

## Y CLOC WEDI SEFYLL.

MI welais gloc ysblenydd
  Ei olwg, ar y mur,
Yr oedd ei ffram o dderw,
  A'i bryd yn arian pur;
Y ffigrau ar ei wyneb
  A'i fysedd wnaed o aur;
A'i holl begynau bwysent
  Ar ddiemwntau claer.

Wrth syllu ar ei harddwch,
  Mi ddwedais wrth fy hun—
"Mae cloc fel hwn yn enw
  I anedd ac i ddyn."
"Tra genych gloc mor werthfawr,
  Dywedais wrth y gwr,
"O'r eiliad, awr, a mynyd,
  Chwi allwch fod yn siwr"

Fe chwarddodd yn fy wyneb,
  A dwedodd yn ei lol—
"Mae'n cadw cystal amser
  A phe bae'n ferfa drol;
Mae wedi sefyll allan
  Rhag gweithio byth i'w ffrynd,
Waeth faint o gost roir arno,
  Mae'n dal i wrthod myn'd."

'Run fath a'r cloc mae llawer
  Yn ddigon hardd eu pryd,
Ac eto yn ddiddefnydd,
  A diwerth yn y byd;
Nid ydynt ar y goreu,
  Yn wragedd ac yn wyr,
Ond clociau wedi sefyll,
  A rhydu ar y mur.

—CANEUON DERFEL.

## "GWNA DDA, NI WAETH I BWY."

MAE llawer ffordd o wneuthur
Daioni yn y byd,
Ffordd ambell un yw peidio
Gwneud da i neb un pryd ;
Ceir ereill a'u terfynau
Ychydig bach yn fwy,
Daw ffryndiau a pherth'nasau
I gylch y da wnant hwy ;
Ond dyma y ffordd oreu,
Os wyt am fron ddiglwy',
Yw cofio y ddiareb—
"Gwna dda, ni waeth i bwy."

Pan ddaw i'th ran gyfleusdra,
Rhyw dro i wneuthur da,
Paid holi pwy yw'r person,
Ond dos yn syth a gwna ;
Os gweli mewn cyfyngder
Y Cymro neu y Sais,
Boed estron, boed gymydog,
Paid diystyru'i gais ;
Dos, estyn law o gymhorth,
Rho olew ar ei glwy',
A chofia y ddiareb—
"Gwna dda, ni waeth i bwy."

CERDDI ONLLWYN

## CYNILDEB.

MAE yr englyn canlynol o waith y diweddar Tegid wedi ei roddi uwchben y lle tân yn neuadd y gwasanaethyddion yn Llanofer :—

Gwastraff, eisiau, drwg ystryw,—gwarth a ddwg,
Ac wrth ddwyn gwarth—distryw ;
Da i bawb cynildeb yw,
A thad i gyfoeth ydyw.

# YR APOSTOLION.

YSTYR y gair Apostol yw "anfonedig," ac y mae yn cael ei ddefnyddio i ddynodi un a ddanfonir allan—cenadwr. Defnyddir yr enw Apostol fel desgrifiad o ddosbarth bychan o ddynion, i'r rhai yr ymddiriedodd Crist y gorchwyl o drefnu ei Eglwys, a lledaenu ei achos yn y byd. Dewisodd yr Iesu ar ddechreu ei weinidogaeth ddeuddeg o honynt, "fel y byddent gydag ef," ac a'i cynysgaethodd hwynt a chymhwysderau neillduol i'r gwaith. Mae Paul yn galw Titus a'i gydweithwyr yn Apostolion, "Cenadau yr Eglwysi;" gelwir Epaphroditus yn Apostol neu genad; ac y mae Iesu Grist yn cael ei alw yn Apostol yn y Testament Newydd, a'r unig dro yw yn Hebreaid iii. 1. Mae wedi, ac yn bod yn bwnc o ddadl gyda golwg ar nifer yr Apostolion. Dywed rhai mai 12 oeddynt, ereill, 13, a rhai eu bod yn 14. Dim ond i ni gymeryd Matthias a Phaul i ystyriaeth maent yn ychwaneg na deuddeg. Y nifer gwreiddiol yw 12. Paham 12 yn wahanol i ryw nifer arall? Ai damwain oedd cael 12? Nage; credwn fod amcan neillduol wrth ethol y nifer yma. Yr esboniad a roddir yn gyffredin yw, am mai 12 oedd rhif y patriarchiaid a llwythau Israel Yr oedd 12 hefyd yn ddigon er rhoddi nerth i'w tystiolaeth.
Cyn bod yn Apostolion yr oedd yn ofynol eu bod yn—1. Wedi gweled yr Iesu yn bersonol. 2. Wedi gweled yr Iesu yn bersonol wedi iddo adgyfodi. 3. Bod yn llygad-dystion o'r hyn a draethent. 4. Bod yn feddianol ar allu gwyrthiol. 5. Wedi eu galw i'r swydd gan yr Iesu ei Hun.

Yr oedd ganddynt waith i wneud hefyd, sef pregethu yr Efengyl, planu Eglwysi, ac adgyfodi y marw. Er eu bod oll wedi cael y gallu i adgyfodi y meirw nid oes genym hanes ond am Petr wedi ei arfer, hyny yw, o'r deuddeg, sef adgyfodi Dorcas; ac adgyfodwyd Eutychus gan Paul.

Beth oedd enwau y 12 Apostol? Dyma gwestiwn ag y mae llawer o broffeswyr crefydd wedi methu ei ateb. Ceir eu henwau yn Matthew x. 2-4. Sylwn yn fyr ar y 12 fel y canlyn:—

*Simon Petr.* Mab ydoedd i Jonas, neu Jonah. Brodor ydoedd o Bethsaida, ond yn Capernaum y trigai. Ei enw gwreiddiol ydoedd Simon, neu Simeon. Ystyr y gair Simon yw, "un yn gwrandaw," ond cyfenwid ef yn Petr neu Cephas gan Iesu Grist, yr hyn enwau a olygai "Careg." Bernir mai efe oedd yr hynaf o'r Apostolion, a'i fod oddeutu 40 mlwydd oed pan gafodd ei alw i'r swydd Apostolaidd. Pysgotwr oedd wrth ei alwedigaeth. Nid dyn cyffredin

ydoedd mewn un ystyr, eto nid oedd yn ddyn heb ei ddiffygion, er cymaint ydoedd. Yr oedd wedi ymgyfarfod ynddo lawer o feiau a rhagoriaethau mawrion. Yr oedd o dymher twym-galon, ac ar amserau safai yn wrol dros Grist, ond yn llwfr mewn profedigaeth. Er hyny, nid oes o'r holl Apostolion neb yn agosach at galonau Cristionogion na Phetr, gyda'r eithriad o Apostol Cariad ac Apostol mawr y Cenedloedd. Bydd yn dda gan lawer ei weled yn y nefoedd. Gwr priod ydoedd. Diwedd Petr, yn ol traddodiad, ydoedd iddo farw trwy ferthyrdod o dan Nero yn 68 O.C., yr un diwrnod a Paul, ond nid yr un ffordd. Paul trwy gael ei ben i ffwrdd, a Petr trwy ei groeshoelio a'i ben i lawr.

*Andreas.* Ystyr y gair yw "Gwrolddyn." Brawd Simon Petr ydoedd, ond nid oes sicrwydd pa un a'i efe neu Petr oedd hynaf, ond dywedir mai Petr Yr oedd yn ddysgybl boreu i Ioan Fedyddiwr, yr hwn ddangosodd iddo ef ac un arall o'i ganlynwyr y Messiah· ac yntau, yn cael gafael yn ei frawd Petr, a'i dygodd ef at yr Iesu, Andreas ydoedd y cyntaf o'r Apostolion a ddaeth yn gydnabyddus a'r Iesu. Pysgotwr ydoedd yntau fel ei frawd. Dywed yr hynafiaid i'r Apostolion gyduno, ar ol i Iesu Grist esgyn i'r nef, trwy fwrw coelbren, er mwyn dod i wybodaeth y rhanau o'r byd y gwnai pob un ddewis eu cymeryd. Mae yn debyg i Andreas ddewis teithio trwy Cappadocia, Galatia, a Bithynia, nes iddo yn y diwedd ddyfod i Patrae, dinas yn Achaia, lle y dyoddefodd ferthyrdod, ac iddo gael ei groeshoelio ar groes o lun X, yr hon ddaeth i gael ei galw yn Groes Sant Andreas.

*Iago.* Y gair Groeg am Iago yw Jacob. Mab ydoedd yr Iago hwn i Zebedeus, ac enw ei fam oedd Salome. Pysgotwr oedd hwn eto. Yr oedd Zebedeus yn ddyn ag oedd mewn amgylchiadau cysurus, oblegyd y mae yn debyg ei fod yn berchen ar ei long ei hun (Marc i. 20). Brawd iddo oedd Ioan, y dysgybl anwyl, ac o'r ddau, Iago oedd yr hynaf. Yr oedd efe yn mhlith dewis-ddysgyblion Crist, y rhai, sef Petr, Iago, a Ioan, a gawsant fwynhau mwy o gymdeithas a chyfrinach yr Iesu na neb arall. Enillodd y ddau frawd hyn—Iago a Ioan—y teitl o Boanerges, neu "feibion y daran," o herwydd gwresogrwydd eu hysbryd a'i tymherau cynhyrfus. Nid oedd Iago yn gymeriad mor gyhoeddus a'i frawd, eto ni sonir gair am dano yn yr Efengylau ar wahan oddiwrtho. Dyma'r merthyr cyntaf yn mhlith yr Apostolion. Rhoddwyd ef i farwolaeth gan Herod Agrippa yn y flwyddyn 44 O.C. "Ac yn nghylch y pryd hyny y lladdodd Herod frenin Iago brawd Ioan a'r cleddyf."

(*I'w barhau*).

*Myrtle Terrace, Llanelli.* T. GRIFFITHS.

# DARNAU HEB ATALNODAU.

GWELAIS long yn nofio ar fynydd Ararat y safodd arch Noe oedd hen wr pan y meddwodd diod sydd goch cam yw llwybrau llawer sydd yn ei ymarfer a hi ydyw un o brif lygredigaethau yr oes bresenol Dafydd oedd frenin cyntaf o holl farnwyr Israel ydoedd Othniel yn wyth niwrnod oed yr enwaedwyd ar Isaac a'r dyn cryfaf oedd Samson yr hwn a dorodd raffau newyddion cryf yw y llew a chyfrwys yw y sarff gwenwynllyd yw ei cholyn fu yn angeu i lawer eto bu ei llun yn feddyginiaeth i lawer Eisteddfod Genedlaethol a fu yn ddiweddar yn Llanelli y mae y stack uchaf a welais erioed darfu mis Mai eleni fod yn boeth iawn yw casglu ffrwythau y ddaear a lyncodd Cora Dathan ac Abiram am offrymu tân dyeithr a dywedyd celwydd fu yn achos marwolaeth Annanias a Sapphira am hyny byddwn eirwir a gonest.

*Blaenpant, Llanginning.* J. D.

AWELSOCH chwi Enoch yn pori yn y cae caed ceffyl ar ben dyn rhoddwyd dyddosben er mwyn iddo oleuo gwneir nwy mewn cawell gosodwyd baban dowch gyda fi sebon am olchi dillad glân yw golwg y golomen ond nid felly ei thy am fod yno greaduriaid ysglafaethus mae yn beryglus i fyw mewn ambell wlad gwlanog yw'r defaid coch sydd liw heb ddim dail mae y coed yn y gauaf mae y nos yn rhy fyr yn yr haf wrth fodd lladron drwg yw dyoddef eisieu bwyd ceryg sydd dda i galedu y ffordd rhwng dwy long yr oedd bad ar y mynydd gwelais John yn ymolchi mae'm brawd ymdreched y dosbarthwyr gael derbynwyr newydd i'r TYWYSYDD y flwyddyn hon am fod ynddo ddefnydd tân mae pylor yn beryglus at fwyta mae cnau byw mewn palas sydd gostus aeth Emrys i Lundain gyda'r tren dros y mor mae myned i America.

*Trelech.* H. A. E.

CLYWAIS ddadwrdd. clywais ddwndro,
Clywais ran o'r byd yn beio ;
Erioed ni chlywais neb yn datgan
Fawr o'i hynod feiau ei hunan,

# CODI DRWY ANHAWSDERAU.

TREULIODD Quintin Matsys, y paentiwr Ellmynaidd, foreu ei oes fel gof pedoli, a gelwir ef yn aml fel yr "Hen Of o Antwerp." Yr achos iddo newid ei alwedigaeth oedd iddo drwy golli ei iechyd fyned i ormod gwendid i weithio gwaith trwm. Gan fod ganddo fam weddw yn dibynu am ei chynaliaeth arno, yr oedd dan rwymau i geisio galwedigaeth ysgafnach, ac ar anogaeth cyfaill treiodd ei law ar baentio. Dangosasai gryn fedr a chywreinrwydd yn flaenorol gyda'i gelfyddyd fel gof, a rhagorodd drachefn yn ei alwedigaeth newydd. Yn mhlith ei ddarluniau goreu rhestrir "The Misers," yr hwn sydd yn llys ein Brenines yn Windsor. Mae hwn yn cael ei gyfrif fel ei gampwaith, ac wedi ei gerfio lawer gwaith, a chopiau o hono wedi eu hargraffu a'u cyhoeddi. Cynwysa y *painting* ddarlun dau arianydd yn rhifo eu haur a'u nodau arianol, a darllenir yn eu gwynebau y boddhad a deimlent uwchben eu cyfoeth. Ceir ynddo hefyd ddarlun canwyllbren a rhol o bapyrau wedi eu gwneud mewn modd hynod o naturiol. Dywedir iddo wedi rhagori fel arluniwr enill llaw y foneddiges a'i gwrthodasai pan yn dilyn ei gelfyddyd fel gof,

## RHODD CARLYLE I'R CARDOTYN.

DROS driugain mlynedd yn ol yr oedd Thomas Carlyle yn byw mewn bwthyn gweithiwr yn Ysgotland. Cynilai ei geiniogau, a chadwai hwynt mewn ysten bridd ar yr astyllen uwchben y tân. Un diwrnod oer, a'r ddaear dan drwch o eira, a'i rieni wedi myned i'r farchnad, galwodd cardotyn llwyd ei wedd wrth y drws gan ofyn am gymhorth. Creodd yr olwg arno dosturi yn nghalon Thomas ieuanc, dringodd i ben cadair, tynodd yr ysten i lawr, ac arllwysodd ei chynwysiad i law y cardotyn. Pan dyfodd i fyny yn ddyn, ac yn ddyn mawr ac enwog, desgrifiai ei deimladau y diwrnod hwnw drwy ddyweyd, "Ni wyddwn i erioed o'r blaen beth oedd llawenydd y nef yn debyg."

**—Pa fwyaf y bydd dyn yn wybod, mwyaf fydd ei syched am wybod mwy.**

## GRONYNAU.

DEDWYDD yw yr hwn y mae ei amgylchiadau yn gyfaddas i'w dymher, ond mwy dedwydd yr hwn all gyfaddasu ei dymher i'r amgylchiadau.—*D Hume.*

—Os nad yw crefydd wedi gwneud dim i'ch tymher, nid yw wedi gwneud dim i'ch enaid.—*R. Clayton*

—Y mae tymher heulog yn goreuro ymylon cwmwl duaf bywyd.—*Guthrie*

—Llywodraethwch eich tymher, a thymherwch eich tafod.—*Jay*

—Os oes llawenydd yn y nef uwchben pechadur a edifarhao, beth ydych yn feddwl sydd yno pan fyddo bachgen neu lodes yn myned ar ol drygioni ?

—Rhoddodd Lot ei blant i Sodom, a chollodd hwynt ; rhoddodd Abraham ei fab i Dduw, a chadwodd ef.

—Pe na ddywedasai Dafydd " Yr Arglwydd yw fy Mugail," nis gallasai byth ddyweyd, " A phreswyliaf yn nhy yr Arglwydd yn dragywydd."

—Ni raid wrth arian i brynu cymaint ag un o angenrheidiau yr enaid.

—Y mae i bob lle uchel ei ddibyn. Y mae i bob dydd ei brydnawn. Y mae i bob cwpan ei waddod.

—Nid oes dim gorphwysfa i uchelgais.—*Bulwer-Lytton.*

## YR YSGRIFBIN.

DRWS crefydd drwy yscrifau—agorwyd
I gyrhaedd eneidiau ;
Er llesiant yr holl oesau—'r ysgrifbin
Yn llyw a brenin yr holl beirianau.

*Cwrtnewydd, 1861.* G. GWENOG.

## DARGANFYDDIAD MWYAF SYR HUMPHRY DAVY.

PAN fyddo bachgen yn cael codiad yn y byd nis gallwn ddweyd beth fydd y canlyniadau. Gofynwyd i Syr Humphry Davy unwaith am roddi rhestr o'r darganfyddiadau mwyaf a wnaethai. Atebodd mai ei ddarganfyddiad mwyaf oedd Michael Faraday. Cafodd ef yn fachgen tylawd yn golchi poteli yn ei fferyllfa, a chynorthwyodd ef nes y daeth yn un o ddynion mwyaf y byd. Cofied y darllenydd fod llawer o glod ei ddyrchafiad yn perthyn i Michael ei hun. Yr oedd yn llanc diwyd a ffyddlon yn ei orchwyl. Pe buasai yn treulio ei amser i chwareu yn lle golchi poteli diau na ddaethai i feddwl Syr Humphry am roi cynorthwy iddo godi. Ei ffyddlondeb i ddyledswyddau bychain a'i cymhwysodd i fod yn ffyddlon mewn pethau mawr. Y bachgen sydd yn golchi poteli yn onestjyw y mwyaf tebyg i gael y llwyddiant wedi tyfu yn ddyn.

## PWY SY'N PERCHENOGI AMERICA?

Mae Cwmniau Reilffyrdd yn berchen ar 211,000,000, o aceri neu erwau, neu ddigon i wneuthur chwech talaeth o faentioli Iowa. Mae y Vanderbilts yn berchen ar 2,000,000 o aceri; Mae Mr. Disston o Pensylfania yn berchen ar fwy na 4,000,000; Murphy o California arwynebedd cyfartal i dalaeth Massachusetts; Derbynia etifeddion etifeddiaeth Schenley 1,000,000 o ddoleri yn flynyddol; Perchenogir 21,000,000 o aceri gan dramorwyr nad ydynt dan warogaeth o gwbl i'r llywodraeth Americanaidd nag yn gyfeillgar i weriniaeth. Pa beth berchenogir gan ein plant?—Hawl i dalu ardreth.—*National Populist.*

## Y SEREN OGLEDDOL.

SIRIOL sefydlog Seren—Ogleddol,
Arglwyddes yr wybren
Ydyw, a nos gwmpawd nen,
I hwylio pan heb heulwen.

CYNON.

# CAMGYMERIAD PREGETHWR.

YR oeddwn mewn capel un Sabbath yn Ngogledd Lloegr lle yr oedd sodgrwth, neu grwth y byrdon (*bass-viol*) wedi ei ddwyn i fewn i gynorthwyo y cor canu. Digwyddai y gweinidog fod yn lled drwm ei glywed, ac ar y bore Sabbath hwnw aflonyddwyd y bregeth gan swn – swn tiwnio y *bass-viol* fel y tybiodd ef, ond yn lle hyny swn tarw ydoedd wedi tori allan o'r cae porfa, ac wedi dyfod ar ei dro i gymydogaeth y capel dan fygynad. Fodd bynag am hyny trodd y gweinidog at y cor a dywedodd, "Teimlaf yn ddiolchgar i'r cantorion am beidio tiwnio eu hofferynau yn ystod y gwasanaeth, canys y mae yn peri blinder i mi." Synodd y côr, ond ni ddywedodd neb ddim. Yn mhen ychydig fynydau bygynodd y tarw drachefn, a'r tro hwn gyda golwg gyffrous safodd y gweinidog ar ei bregeth, a chan edrych yn sarug tua'r *bass-viol* dywedodd, "Yr wyf yn dymuno yn neillduol ar Mr. L—— i beidio tiwnio ei offeryn tra yr wyf yn pregethu." Bu dystawrwydd am enyd, a'r gynulleidfa yn barod i chwerthin am ben camgymeriad y gweinidog. Yna cyfododd y gwr oedd yn chwareu y *bass-viol*, a gwaeddodd yn uchel fel y gallai y gweinidog ei glywed, "Nid y fi ydyw, weinidog—nid y fi ydyw, ond hen darw y dref!" Yr oedd hyn yn ormod i'r gynulleidfa ddal, a thorodd allan i chwerthin yn iachus, a'r gweinidog ei hunan yn cyduno, er ei fod yn edrych i raddau wedi ei gymysgu. E. HORROCKS.

## PENILL ANGLADDOL.

ER ein chwalu fel teuluoedd,
A pherth'nasau ar y llawr,
Melus meddwl gellir eto
Gwrdd yn y Gymanfa fawr;
Ond im' gael adnabod Iesu,
Gorphwys arno yn yr Iawn
Rhoddodd trosom mewn dyoddefaint,
Ar Galfaria un prydnawn.

*Rock Hall, Trelech.* H. A. EVANS.

Y GENINEN *am Gorphenhaf*. *Pris* 1/-. Mae ein cylchgrawn chwarterol cenedlaethol yn llawn yni a bywiogrwydd y blynyddau diweddaf hyn. Ceir amryw ysgrifau byw yn y rhifyn am Gorphenhaf. Wele rai o'r testynau:—Emynyddiaeth Gymraeg, gan Llawdden—Awgrymiadau ar astudio hanes Cymru, gan Proff. Anwyl—y Prif-athraw Dr. Gethin Davies—I ba le yr aeth uffern?—&c. Sylw pellach yn y rhifyn nesaf.

# YR AFR A'R ENCILIWR.

MAE i'r Gatrawd Cymreig o Filwyr afr, fel arwydd cenedlaethol, yr hon a gerdda o'u blaen pan ymdeithiant. Mae wedi ymarfer cymaint a'r bywyd a'r arferion milwrol fel y gwyr ei dyledswyddau i'r pen; a meddylir byd o'r afr gan y cwmni, ac y mae yn y parch mwyaf ganddynt. Dro yn ol yr oedd y cwmni milwrol Cymreig ar eu hymdaith yn y Brif-ddinas, ac yn myned dros Bont Llundain. Pan tua canol y bont trodd yr afr yn ddisymwth o'i lle ar flaen y rheng, ac ymosododd ar ddyn oedd yn myned ar y palmant gydag ochr y bont, a gwthiodd y dyn a'i chyrn yn erbyn y mur. Aeth dau o'r milwyr ar frys i noddi y dyn, ac i gymeryd yr afr yn ol i'w lle. Pan wrth y gorchwyl hwnw, adnabuasant y dyn fel enciliwr (*deserter*) o'r fyddin; ond yr oedd yr afr wedi ei adnabod o'u blaen, ac wedi ei ddal a'i chyrn. Cymerwyd y dyn i'r ddalfa ar unwaith, ac aed ag ef i ffwrdd. Ar hyn dychwelodd yr afr o honi ei hun i'w lle ar ben y rhes filwyr, ac ymddangosai yn hynod foddhaus o'i gwrhydri, ac iddi fod yn gyfrwng i ddal yr enciliwr. Nid rhyfedd fod y milwyr Cymreig yn falch o'u gafr.

Mae encilwyr (*deserters*) oddiwrth grefydd hefyd; ac y mae y geifr, sef gwyr y byd, rhai digrefydd, yn eu hadnabod, ac yn eu cornio yn enbyd yn fynych, gan edliw iddynt yr hyn fuont unwaith mewn proffes. Nid golwg dda sydd ganddynt hwy i weled gwrthgilwyr yn gwaradwyddo crefydd, fel rheol.

*March, Cambs.* CLWYDWENFRO.

---

# TY DDUW.

MAE f'enaid yn hiraethu
Am dy Dduw,
A'm blys sydd yn cynyddu
Am dy Dduw;
Caf fyn'd i'r ty tragwyddol,
A wnaed gan ddwylaw Dwyfol,
I ganu'r anthem nefol
Am dy Dduw,
A chanmol Iesu'n fythol
Am dy Dduw.

*Gorseinon.* SAMUEL JONES.

# YR AFRADLON.

AR noson oer, auafol, gerllaw i fwthyn tlws,
Canfyddwn wrthddrych truan yn sefyll wrth y drws,
Daeth ataf a gofynodd, b'le mae y ddau oedranus
Oedd yma'n byw, os gwyddoch, a'i olwg yn druenus,
Ar hyn atebais iddo, mae'r ddau yn fyw ac iach,
Medd ef, "Gofynwch iddynt ddod allan enyd bach,
Fod John eu mab mewn carpiau, ac arno olwg lwyd,
Yn wlyb a bron newynu yn awr o eisieu bwyd,
Fod arno chwant ac ofn, chwant gwel'd ei dad a'i fam,
Ac ofn cael ei wrthod 'n ei fynwes megys fflam,
Ac os na ddeuant allan mai marw yw fy rhan,
Bydd rhaid i rywrai'n fuan i'm hebrwng tua'r llan."
Ac yna mi a redais i'r ty yn llawn fy mron,
Gofynais i'w rieni os gwyddent hanes John,
A dyma'r fam yn ateb dan wylo, "Na, yn wir,
Nis gwyddom ddim o'i hanes yn awr er's amser hir."
Ha! peidiwch wylo, meddwn, mae allan wrth y ty,
A dyfod drosto'n genad ar frys yr ydwyf fi
A ddowch chwi allan ato, mae bron a rhynu'n lân,
Mi wn y carai ddyfod i dwymno wrth eich tân,
Gwael garpiau sydd am dano, ac O! mae'r olwg lwyd
A welir ar ei wyneb yn arwydd eisieu bwyd."
Mae'r tad a'r fam yn codi mewn cyffro ar eu traed,
Eu cariad tuag ato a ferwai yn eu gwaed,
Ac ymaith am y cyntaf yn llawn teimladau byw,
Y rhedent ac y gwaeddent, O John, mor dda yw Duw,
Atebodd ein gweddiau, a diolch iddo byth,
Am ddwyn ein hanwyl fachgen i'w hoff foreuol nyth.
Hwy fynent ei gofleidio, ond cwympodd John i'r llawr,
Dan grynu ac och'neidio, heb fedru sefyll 'nawr,
Cyfodwyd ef i fyny, a chyda'i dad a'i fam,
Arweiniwyd ef i mewn i'r ty yn araf, gam a cham.
'Rafradlon a ddywedai, mae rhyw euogrwydd du
Yn sefyll fel mynyddau mawr rhyngwyf fi a chwi,
Annheilwng ydwyf heddyw o'r enw mab yn wir,
O herwydd yn fy mynwes y mae rhyw ddirfawr gur,
A gaf fi ofyn genych faddeuant am fy mai,
Mi wn eich bod yn caru yr Hwn sy'n trugarhau.

Ar hyn ei fam a redai i mofyn y wisg oreu,
A gwisgwyd am ei draed hosanau ac esgidiau,
Cadd groesaw yn y llys, cadd bobpeth i'w gysuro,
Y newydd aeth ar led, a'i frodyr ddaethant yno;
Gwnaed yno wledd ddanteithiol, croesawyd hen gyfeillion,
A minau yn eu plith, dyddanent yr afradlon.
Gweddiwyd ar ei ran gan bobl wir rinweddol,
Am iddo gael ei wneud yn fachgen da a dawiol.
Mae llawer bachgen ffol ar hyd ein gwlad yn crwydro,
Heb le i droi yn ol, ei riaint sydd yn huno,
Os gwel ef hyn am John, gobeithio bydd yr hanes,
Fel picell flaenllym yn trywanu'i euog fynwes.

*Waunarlwydd.* W. DAVIES (Gwilym Ebrill).

## YR HYN WNAETH UN GWYDRAID O *RUM.*

MEWN cyfarfod dirwestol mawr a lywyddid gan y Parch. Dr. Richard Newton, cododd morwr, ac adroddodd yr hanesyn cyffrous a ganlyn. Dywedodd—

"ANWYL GYFEILLION.—Nis gwn y ffordd i wneud araeth, ond yr wyf am ddyweyd wrthych y peth a wnaeth un glasiad o *Rum* i mi. Yr oedd genyf long fechan yn hwylio gyda'r lan. Fy mrawd oedd yr ail lywydd, ac yr oedd dau o forwyr ereill. Yr oedd fy ngwraig a'm dau blentyn gyda mi ar y bwrdd. Un nos yr oedd yn ystormus anarferol. Fy mrawd oedd i gadw gwyliadwriaeth y nos hono. Perswadiodd y morwyr ef i gymeryd un glasiad o *Rum* i'w gynorthwyo i sefyll yr ystorm. Nid oedd yn arfer yfed gwirodydd o un math. Gorchfygodd y *Rum* ef, a syrthiodd i gwsg trwm. Deffroais wedi canol nos i gael fy llestr yn ddrylliau. Cymerais un o'm rhai bach yn fy mreichiau a'm gwraig y llall. Bum am oriau yn ymladd a'r tonau oer. Ar ol ymdrech faith golchodd y tonau fy mhlentyn anwyl o'm col. Yn mheu ychydig golchwyd y plentyn arall o freichiau ei fam, a boddwyd y ddau. Yr oeddym ni yn brwydro a'r ystorm a'r tonau. Edrychais ar fy ngwraig a gwelais hi yn welw oer yn nghrafanc angeu. Ymdrechais fyned yn y blaen tua'r lan. Yna deallais fod fy ngwraig a'm plant, a'r cwbl a feddwn yn y byd wedi eu cymeryd oddiarnaf drwy un glasiad o *Rum.*"

Ddarllenydd ieuanc, os wyt yn ddirwestwr paid ar dy berygl a thori dy ymrwymiad. Os nad ydwyt wedi llwyrymwrthod, gwna ar frys, canys yn hyny y mae dyogelwch.

# GOFYNIADAU AC ATEBION.

## POS YSGRYTHYROL.

Brenin cyntaf Israel.
Tad i broffwyd.
Un o feibion Dafydd.
Brenin Elam.
Un o wyrion Eli.
Brenines a deyrnasodd ar ol ei mab.
Un o feibion Terah.

Gwna y llythyrenau blaenaf enw brenin y lladdwyd ei feibion o flaen ei lygaid.

☞Anfoned awdwr y Pos ei enw, caiff ymddangos gyda'r atebion.—Gol.

——:o:——

## POS RHIFYDDOL.

Ar ol gwario 2-7th o'r arian oedd genyf yn fy llogell cefais fod genyf ddeg swllt yn rhagor ar ol nag oeddwn wedi wario. Pa faint oedd genyf yn fy llogell ar ol?

W. Morgans.

*Tabernacl, Gowerton.*

——:o:——

## ATEB I'R POS YSGRYTHYROL.

S afsa—1 Cronicl xviii, 16
I bsan—Barnwyr xii, 8
P elican—Lefiticus xi, 18
R isph—2 Samuel xxi, 10
A char neu Achan—1 Cronicl ii, 7
H anun—2 Samuel x, 4

Siprah—Exodus i, 15.

Atebwyd yn gywir gan—Ann Nicholas, Tabernacl, Gowerton; S Davies, Saron, Maesteg; W Techon Thomas, Berea, Cwmfelin; W. J. Williams, Saron, Maesteg; S Eynon, Tabernacl, Treharris; W Phillips, Railway Terrace, Llanelli; Alfred Jones, Beulah, Garth; Martha M. Jones, Ebenezer, Garth, Maesteg.

# O, CADW FFORDD Y NEF.

(DEUAWD).

Y geiriau gan DEWI DYFAN.

Y gerddoriaeth gan J. B. JOHN (Asaph Dâr), Cwmbach.

Doh G.

s.f | m :—: m | m.r : m | s:f : m | r :—: r:m | f:—:f | l
m.r | d :—: d | d.$t_1$ : d | m:r : d | $t_1$ :—: $t_1$:d | r:—:r | f
A wel'd di'r deig-ryn glo-ew sydd ar rudd dy an-

:—: s.f | m :—:—|—:—: r.m | f :—:f | m :—:r | d :—:m | s
:—: m.r | d :—:—|—:—: $t_1$.d | d :—:d | d :—:$t_1$ | d :—:d | m
wyl fam, Yr hon a'th wyl - iai nos a dydd,

:—:s | fe:—:s | t :—: l | s :—:—|—:s.f | m :—:m | m : r :m
:—:m | r :—:[illegible] | r :—: d | $t_1$ :—:—|—:d.r | d :—:d | d :$t_1$ :d
pan gynt yn fyr dy gam; Mae ca - lon yn y

f :—:s | l:—: l | s:—:s | fe:—: fe | s :—:—|—:—: d.r
$l_1$ :—:r | d:—: d | m:—:m | r :—: d | $t_1$ :—:—|—:—: $l_1$.$t_1$
deig - ryn gwiw, yn er - fyn trwydd-o ef, Am

m :—: m | r :—:d | r :—:m | f :—:s.f | m:f : m | r :—: r
d :—: d | $t_1$ :—:$l_1$ | $t_1$ :—:d | $l_1$ :—:$t_1$.$l_1$ | $s_1$:$l_1$ : $s_1$ | $s_1$: : $s_1$
i ti wran-do'r wedd - i fyw, O cad - w ffordd y

d :—:—| d :—: ‖
$m_1$ :—:—| $m_1$ :—: ‖
nef.

Os daw cyfeillion drwg ryw bryd
I geisio genyt ddod
I rodio llwybrau gwagedd byd,
Gan ddweyd fod hyny'n glod,
O, paid a'u canlyn hwy un cam,
Na gwrando'u denol lef,
Ond cofia weddi deigryn mam—
O, cadw ffordd y nef.

Os wyt am ddod yn ddyn o bwys,
Gofala hyn mewn pryd,
Gwna bwyntio'n iawn cyn dechreu'r gwys
Yn groes i gae y byd;
Gwna ddilyn llinell crefydd Crist,
A'i doeth awdurdod gref,
A chofia weddi deigryn trist—
O, cadw ffordd y nef.

## LLYFRAU NEWYDDION.

THE QUIVER am Mehefin. Pris 6c. Cyhoeddwyr—Cassell a'i Gyf., Llundain.

"Gartref gydag Amddifaid Spurgeon" yw teitl yr erthygl gyntaf, yn cael ei egluro gyda darluniau. Y mae y "Stockwell Orphanage" yn gofadail ardderchog i'w sylfaenydd enwog. Mae eisieu £10,000 y flwyddyn i'w dwyn yn mlaen ar ei llinellau gwreiddiol, ac nid oes ball am arian. Swyddogion Eglwys y Tabernacl yw y pwyllgor i'w dwyn yn mlaen dros y tanysgrifwyr. Dygir hi yn mlaen yn ol y gyfundrefn deuluaidd. Nid oes yr un ymgeisydd gwir angenus yn cael ei wrthod. Derbynir plant o 6 i 10 oed. Y mae y drws yn agored i amddifaid o'r holl Deyrnas Gyfunol. Mae y plant i gyd yn yr ysgol. Dysgir y merched i gwcio, gwnio, golchi, a smwddio. Mae ysgol i'r bechgyn, lle eu dysgir i drin offerynau er eu cymhwyso at alwedigaethau bywyd. Darllenir y Beibl yn yr ysgolion. Mae yr addysg yn anenwadol. Gelwir gweinidogion a chlerigwyr ar eu tro i anerch y plant. Mae y rhifyn i gyd yn wir ddarllenadwy.

GWELLIANT GWALLAU.—Yn y gân a chydgan "Gwanwyn Bywyd," D ddylai y cyweirnod fod, ac nid F. Hefyd r, ddylai fod yn yr ail soprano yn niwedd yr ail linell o'r gydgan.

# ABSTAINERS!!

Before INSURING, send for Prospectus of

## Scottish Temperance Life and Accident Insurance Co., Ld.

81, RENFIELD STREET, GLASGOW,

Or—MR. B. PERCY REES, 1, Vaughan Street, Llanelly.

---

**PRIS CEINIOG: 14 yn y Dwsin.**

—:-o-:—

## MOSES: Catecism i Blant.

**Gan y Parch. D. LEWIS, Llanelli.**

—:-o-:—

☞ Anfoner at REV. D. LEWIS, New Dock, Llanelly.

---

**BYWYD a GWEITHIAU y diweddar Barch. D. REES,** Llanelli.

—:—

GAN Y PARCH. T. DAVIES, LLANDILO

—:—

Gwerthir hwy am **3s. 6c.** (yn lle **7s. 6c.**) am *arian parod.*

—:o:—

Anfoner at B. R. Rees, Swyddfa'r "Diwygiwr," Llanelli.

---

LLYFRAU! LLYFRAU!! LLYFRAU!!!

Am y Prisoedd iselaf.

Anfoner at B. R. REES & SON, Llanelly, Carm,

# HUGHES'S BLOOD PILLS.

Mae y *Trade Mark* hwn, sef Llun y Galon

**Hughes's** BLOOD PILLS

Ar bob blwch, heb hyn twyll ydynt.

**ANSAWDD Y GWAED** ydyw ffynonell y sefyllfa Ddrwg neu Dda y Corff Dynol, ffynonell o Jechyd neu Afiechyd, ffynonell o Ddedwyddwch a Llwyddiant, neu o Drallod a Thlodi.

## Gwaed Drwg

a achosa annrhefn yn y Cyfansoddiad, a Therfysgiad yn ngwaith Organau y Corff. Y mae hefyd yn achos o'r Poenau Clefydau, a'r Gofidiau ag sydd yn blino Gwyr a Gwragedd drwy y wlad.

## Gwaed Pur

yn cylchredeg drwy bob rhan o'r corff, yn maethloni y Gewynau, Nerves, a'r Esgyrn; mae o angenrhaid yn sefydlu Iechyd y Corff, a Bywiogrwydd yr Ymenydd, nes galluogi pob Dyn a Dynes i gyflawni eu gorchwylion gyda phleser a llwyddiant.



"Yn mhob afiechyd yr wyf yn gwybod am dano, mae *Hughes's Blood Pills* wedi gwneuthur mwy o les na dim arall."

## Mae y Pills

Hyn yn Puro ac yn Cryfhau y Gwaed, ac o ganlyniad yn Iachau

Scurvy, Clefydau y Croen, Tarddiantau, Poen Pen, Diffyg Traul, Afu ddrwg, Corffrwymedd, Isel Ysbryd, Gwynegon, Piles, Fits, Nervousness, &c.

Rhyfedd mor effeithiol y maent.

## At Glefydau Benywaidd.

Y maent yn hynod gyfaddas, fel nad oes angenrhaid gymeryd dim arall.

**RHODDER PRAWF ARNYNT**—Hwy a'ch gwellhant yn bur fuan; y maent yn gyfaddas i'r Gwr a'r Wraig, y Mab a'r Ferch, felly danfoner am danynt oddiwrth eich Chemist, neu werthwr Patent Medicine; eu pris yw 1s.1c.a dimai; 2s.9c.; a 4s.6c.; neu danfoner (gan amgau stamps) at y darganfyddwr

JACOB HUGHES, Manufacturing Chemist, Penarth.

Mae y *Trade Mark* hwn, sef Llun y Galon

**Hughes's** BLOOD PILLS

Ar bob blwch, heb hyn twyll ydynt.

# HUGHES'S BLOOD PILLS.